# CYFARFOD BLYNYDDOL CRONFA BENSIWN GWYNEDD RHWNG AELODAU PWYLLGOR PENSIYNAU CYNGOR GWYNEDD A CHYNRYCHIOLWYR Y CYFLOGWYR A'R UNDEBAU, 20.07.10

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Keith Greenly-Jones (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Trevor Edwards, John G. Jones a'r Cynghorydd T.H. Jones (Cyngor Sir Ynys Môn)

**Hefyd yn bresennol -** Dilwyn Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Gareth Jones (Rheolwr Gweithrediadau Pensiynau), Nicholas Hopkins (Uwch Swyddog Pensiynau), Marina Parry Owen (Swyddog Pensiynau a Buddsoddiadau) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Pwyllgor) (Cyngor Gwynedd); Rosslyn Morgan (Cyngor Sir Ynys Môn); W. Thomas (Coleg Menai), Huw Trainer (Heddlu Gogledd Cymru), M. Norton (Coleg Llandrillo), P.R. Brooks (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Robin Llewelyn Owen a G. Edkins (Unsain), Isobel Watson (Cyngor Tref Porthaethwy), Nerys Owen (Cartrefi Conwy), Nia Jones (Cwmni'r Frân Wen), Douglas Anderson a Richard Carlile (Capital International); Gareth Davies (Black Rock); Paul Potter (Hymans Robertson); Graham Kane ac Anthony Shale (UBS Global) a Victoria Higley (Fidelity International)

**Ymddiheuriadau -** Y Cynghorwyr J.W. Jones, J.R. Jones (Cyngor Gwynedd); Y Cynghorydd Margaret Lyon (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Catherine Owen (Clarc Cyngor Tref Caernarfon) a Dr Gwynne Jones (Cynnal)

## 1. CADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Keith Greenly-Jones yn gadeirydd am y cyfarfod.**

## 2. IS-GADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd John G. Jones yn is-gadeirydd am y cyfarfod.**

## 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol

## 4. CROESO

Estynodd y Cadeirydd groeso i'r ymwelwyr oedd yn y cyfarfod i gynrychioli'r cwmniau sydd yn buddsoddi ar ran y Cyngor ac i ateb unrhyw gwestiynau sy'n codi ynglyn â'r buddsoddiadau hynny.

## 5. Y GRONFA BENSIWN

Cyflwynoddd y Cyfarwyddwr Corfforaethol adroddiad blynyddol y Cynllun Pensiwn am 2009/10 oedd yn cynnwys:

- adolygiad y flwyddyn
- tueddiadau diweddar
- adroddiad rheoli yn crynhoi prif nodweddion gweinyddu'r cynllun
- sefyllfa actiwaraidd y gronfa
- trefniadau gweinyddol a chadw
- amlinelliad o'r pwerau buddsoddi a'r dull o reoli buddsoddiadau
- crynodeb o'r perfformiad buddsoddi
- datganiad o egwyddorion buddsoddi a strategaeth cyllido
- manylion y strwythur rheoli
- ystadegau aelodaeth
- manylion am y cyflogwyr sy'n rhan o'r gronfa
- datganiad o gyfrifon 2009/10 a nodiadau i'r cyfrifon
- atodiadau yn cynnwys datganiadau polisi cyfathrebu a llywodraethu, datganiad cydymffurfiad â'r drefn lywodraethol, datganiad o egwyddorion buddsoddi a'r strategaeth cyllido

Rhoddodd sylw penodol i brif faterion yr adroddiad sef:

- Bod yr adroddiad eto eleni yn drwchus oherwydd bod yn rhaid ymgorffori'r holl ddatganiadau polisi fel rhan o'r adroddiad blynyddol bellach.
- Gweinyddiaeth y gronfa. Nododd bod y cynllun newydd a ddaeth i fodolaeth oddeutu dwy flynedd yn ôl yn parhau i achosi ychydig o broblemau oherwydd y trafferthion i gael manylion parthed y bandiau y disgwylir i'r cyflogwyr ddygymod â hwy.
- Y rhoddir blaenoriaeth sylweddol i gyfathrebu o safbwynt y Gronfa Bensiwn gan mai ychydig o'r gweithlu sy'n ymwybodol o fanteision/dewisiadau a geid o'r gronfa.
- Y dechreuwyd cynnal cyfarfodydd anffurfiol gyda'r cyflogwyr. Bwriedir cyfarfod y cyflogwyr tair gwaith y flwyddyn a chroesawyd hynny gan y cyflogwyr yn gyffredinol oherwydd ei fod yn rhoddi cyfle anffurfiol iddynt godi materion sy'n eu poeni ac i gael gwell dealltwriaeth o amgylch bwrdd.
- Y lansiwyd safle we ddwyieithog y Gronfa Bensiwn yn Mawrth 2009 sy'n ased defnyddiol.
- Llwyddiannau arholiadau. Nododd bod y gronfa yn ymroddgar i sicrhau bod y cyflogwyr yn cael y gwasanaeth gorau posibl ac un ffordd o sicrhau hynny yw cael staff o ansawdd i gyflawni hynny. Cyfeiriodd at y ffaith bod 10 allan o 14 o staff yr Uned Bensiwn yng Ngwynedd gyda cymhwyster proffesiynol ym maes pensiynau, ac mae Cronfa Bensiwn Gwynedd gyda'r canran uchaf o staff gyda chymhwyster ar draws holl gronfeydd Cymru. Rhoddir cryn bwyslais ar hyfforddiant a thynnodd sylw at y ffaith bod un o swyddogion cyfathrebu'r gronfa, sef Ayesha Blake, wedi cael clod arbennig wrth gyflawni'r cwrs yn ystod y flwyddyn.
- Mewn perthynas â phrisiant 2010, nododd bod sefyllfa'r farchnad wedi mynd yn erbyn y gronfa ac bod yna debygrwydd eithaf sylweddol y byddai cyfraniad y cyflogwr yn gorfod cynyddu yn y prisiad nesaf. Mae yna ddau ffactor sydd wedi newid ychydig ar hynny sef yn gyntaf bod y llywodraeth yn ddiweddar wedi penderfynu defnyddio "Consumer Prices Index" yn hytrach na "Retail Prices Index" ar gyfer cynyddu pensiynau i'r dyfodol. Y tebygrwydd yw y byddai hynny'n lleihau yr ymrwymiadau sydd gan y gronfa yn eithaf sylweddol a bydd y

canlyniadau pan wneir y prisiant yn well na ragwelwyd yn wreiddiol. Y ffactor arall i'w ystyried yw'r ffaith bod y llywodraeth wedi datgan y rhewir cyflogau yn y sector gyhoeddus am ddwy flynedd. Gan gymryd y bydd hynny'n digwydd mewn llywodraeth leol yn ogystal, byddai'n debygol o ddylanwadu ar ganlyniadau'r prisiant yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Serch hynny, mae yna bosibilrwydd eithaf cryf y bydd angen codi cyfraniadau cyflogwyr, ond er mwyn sicrhau na fydd pobl yn wynebu cynnydd gormodol, gwahoddir yr holl gyflogwyr tros y dyddiau nesaf i gyfarfodydd i drafod y sefyllfa. Cyfeiriodd hefyd at y gyfundrefn "capio a rhannu" sydd gan y llywodraeth i geisio sicrhau nad y cyflogwr sy'n wynebu'r holl risgiau sy'n gysylltiedig â chronfeydd pensiwn. Nododd bod Canghellor y Trysorlys wedi datgan yn y gyllideb ei fwriad i greu comisiwn i edrych ar bensiynau sector cyhoeddus a rhagwelir felly newidiadau o'r cyfeiriad hwn maes o law.

- Ffigurau monitro perfformiad yr Uned Gweinyddu Pensiynau sy'n dangos gwelliant lled parhaus. Nododd os oes unrhyw elfen o'r gweinyddiad pensiynau yn creu pryder, yna dylid tynnu sylw'r swyddogion perthnasol at hynny.
- Mewn perthynas â Rheoliadau Buddsoddi, tynnodd sylw at y newidiadau i'r rheoliadau sy'n ymwneud â rheoli a buddsoddi cronfeydd.
- Dyraniad Asedau Tactegol. Nododd i'r Pwyllgor Pensiynau yn ystod y flwyddyn gymryd camau i newid y sefyllfa strategol. Ar ddechrau'r cyfnod yn dilyn y prisiad mae'r Pwyllgor Pensiynau yn penderfynu faint a roddir i'r gwahanol ddosbarth o asedau, sef oddeutu 75% mewn ecwiti, 10% mewn eiddo a 15% mewn bondiau. Y llynedd cafwyd cyfle i newid hwnnw'n dactegol am gyfnod byr ac yn deillio o hynny 'roedd y gwahaniaeth rhwng y bondiau corfforaethol, sef y bondiau mae cwmniau yn eu gosod allan, a giltiau mor fawr fel bod yna gyfle i newid asedau am gyfnod o oddeutu blwyddyn ac o wneud hynny, gwnaed elw o £4.9m i'r gronfa.
- Safon o Adroddiad Ariannol 17 (SAA 17). 'Roedd yn ymwybodol y byddai hwn yn creu problemau mawr i nifer o bobl. Eleni, er gwaethaf y ffaith bod sefyllfa'r gronfa wedi gwella oherwydd cynnydd ym marchnadoedd ecwiti fe ostyngodd ffigurau SAA 17 oherwydd y ffordd y gweithredir yr SAA 17.
- Bod y gronfa wedi cyflawni dychweliad o 39.7% yn ystod y flwyddyn, sef cynnydd sylweddol, ond yn anffodus 'roedd disgwyliad o'r meincnod a roddwyd i'r Rheolwyr Buddsoddi i gael 40.8%. Mae'r cwestiwn o Reolwyr Buddsoddi wedi creu poendod ers ychydig o flynyddoedd ac mae'r Pwyllgor Pensiynau wedi ceisio gwneud rhywbeth ynglyn â hynny. Nododd bod gan y gronfa erbyn hyn ddau Reolwr Buddsoddi newydd sef Fidelity International sy'n edrych ar ôl portffolio byd eang ac Insight sy'n edrych ar ôl bondiau'r gronfa ar sail weithredol. Cyfeiriodd at berfformiad y gwahanol reolwyr yn erbyn eu meincnod sy'n dangos 39.7% o ddychweliad yn erbyn meincnod o 40.8%.
- Yn flynyddol fe baratoir tabl cynghrair sy'n rhestru Cronfeydd Pensiwn Awdurdodau Lleol yn ôl eu perfformiad buddsoddi yn ystod y flwyddyn ariannol. Allan o'r 87 cronfa bensiwn sy'n tanysgrifio i'r gwasanaeth, 'roedd perfformiad Gwynedd yn safle 18 sef ugeinfed canraddol gyda perfformiad y gronfa yn 39.7% o'i gymharu â'r cyfartaledd o 35.6%. Tros yr wyth mlynedd ddiwethaf mae'r gronfa wedi cael dychweliad o 54.5%, sydd ychydig o flaen y cyfartaledd ar gyfer y cyfnod hwn. Am y flwyddyn i 31 Mawrth 2010, gwelodd y gronfa yr enillion gorau yng Nghymru. Nododd pe byddai'r gronfa wedi derbyn dychweliadau'r perfformiad gwaethaf yng Nghymru byddai'r gronfa wedi bod £101m ar ei cholled. Hyd yn oed o gael perfformiad ar y lefel cyfartaledd byddai'r gronfa wedi bod ar ei cholled o £28m.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cyfarwyddwr a'i staff am adroddiad eglur a chynhwysfawr.

Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiynau o’r llawr.

**PENDERFYNWYD derbyn a nodi’r adroddiad.**

Dechreuodd y cyfarfod am 2.30pm a daeth i ben am 2.50pm.